Busnes Cymdeithasol Cymru
Social Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UnLtd

Fully Dedicated

Dechreuodd Jacob Henry ei daith i entrepreneuriaeth gymdeithasol gyda 'Vibe Youth CIC' yn 2017 er mwyn cefnogi lles a datblygiad personol pobl ifanc.

Yn 2022, sefydlodd Jacob 'Fully Dedicated', ail gwmni buddiant cymunedol sy'n canolbwyntio ar gydweithio â'r system cyfiawnder troseddol i ddyfnhau dealltwriaeth o wahaniaethu ar sail hil.

Heriau

Ers yn ifanc, mae Jacob wedi wynebu gwahaniaethu hiliol ac wedi dod ar draws rhwystrau oherwydd ei ethnigrwydd. Roedd Jacob mewn gang pan yn Llundain a arweiniodd yn y pen draw at ddedfryd o 10 mlynedd o garchar, ond dyma pryd y penderfynodd newid ei fywyd.

Ar ôl gadael y carchar, parhaodd Jacob i dderbyn triniaeth annheg ac roedd yn aml yn cael ei stopio gan yr heddlu heb reswm dilys. Mae pobl ddu 6.2 gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio o gymharu â phobl wyn. Cyflwynodd Jacob gŵyn i Swyddfa'r Comisiynydd ac yn fuan wedyn cafodd ei wahodd i rannu ei brofiadau personol o hiliaeth a rhagfarn gydag unigolion o'r system cyfiawnder troseddol.

Datrysiad

Ar ôl cyflwyno nifer o'r sesiynau hyn, gofynnwyd i Jacob hwyluso hyfforddiant. Fe wnaeth Jacob gynnwys arbenigwyr academaidd yn ogystal â phobl o grwpiau lleiafrifol i ddod ag ystod amrywiol o leisiau a phrofiadau byw o ragfarn.

Mae'r sesiynau'n creu man diogel lle gall pobl sy'n gweithio o fewn y system cyfiawnder troseddol ddysgu gwirioneddau llym am y berthynas rhyngddynt â phobl o leiafrifoedd ethnig. Mae pobl BAME hyd at 81% yn fwy tebygol o gael eu hanfon i'r carchar o gymharu â phobl wyn. Anogir cyfranogwyr i fyfyrio ar sut y gall rhagfarnau diwylliannol neu hiliol ddylanwadu ar eu credoau a'u hymddygiadau a thynnu mewnwelediadau o gyfarfyddiadau personol Jacob â'r rhagfarnau hyn.

Cyflawniadau

Mae Jacob wedi darparu hyfforddiant i 249 o weithwyr yn Heddlu De Cymru hyd yn hyn. Mae staff yn aml yn gadael yn teimlo'n emosiynol ac yn fyfyriol, yn barod i barhau i ddysgu yn eu bywydau bob dydd. Mae Jacob hefyd wedi siarad ag uwch staff yr heddlu mewn cynadleddau cenedlaethol.

Beth Nesaf?

- Dod â phobl o'r gymuned sydd wedi profi rhagfarn i weithio gyda mudiadau a'r system cyfiawnder troseddol.
- Darparu mentoriaeth un-i-un mewn sesiynau ar gyfer mewnwelediad ac arweiniad mwy personol.

Yr hyn a ddysgwyd ganddo

Mae Jacob wedi dysgu y gall ei brofiadau negyddol ddod yn straeon pwerus i'w rhannu a chreu newid parhaol mewn cymdeithas.

Cymorth Busnes Cymdeithasol Cymru

- Roedd dyfarniad ariannol Ecwiti yn caniatáu i Jacob fuddsoddi mewn gwisg, gwefan, technoleg, llyfrau gwaith a brandio.
- Mae Jacob yn teimlo'n llai ynysig ar ôl cael ei gysylltu â chymuned o entrepreneuriaid cymdeithasol.
- Darparodd UnLtd gefnogaeth wedi'i theilwra i hybu hyder Jacob.

- ***Dysgwch fwy am gymorth Busnes Cymdeithasol Cymru sydd ar gael i entrepreneuriaid cymdeithasol sy'n byw yng Nghymru yma.***
- ***Dysgwch fwy am Fully Dedicated yma.***